***HYSBYSIAD ENGHREIFFTIOL***

Mae'r Hysbysiad i'w arddangos yn y fangre am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Rhaid i'r Hysbysiad, ym mhob achos, gael ei arddangos yn amlwg yn y fangre y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu ynddi lle y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r fangre ac yn achos mangre sy'n gorchuddio arwynebedd o fwy na hanner can metr sgwâr, Hysbysiad pellach ar yr un ffurf ac yn ddarostyngedig i'r un gofynion bob hanner can metr ar hyd perimedr allanol yr eiddo sy'n ffinio ag unrhyw briffordd;

Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad yn y Papur Newydd Lleol o leiaf unwaith o fewn 10 diwrnod gwaith gan ddechrau'r diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud i'r Awdurdod trwyddedu.

Rhaid i'r Hysbysiad sydd i'w arddangos ar y safle fod: o faint cyfartal neu fwy nag A4, o liw glas golau, wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn du mewn ffont o faint sy'n hafal i neu'n fwy na 16;

**Mae Enghraifft o eiriad Hysbysiad i'w weld isod:-**

Mae Huw Lloyd-Jones yn gwneud cais am Drwydded Mangre ar gyfer The Soundbar, Ystafelloedd A a B Hen Neuadd y Farchnad, Heol y Priordy, Trefynwy.

Mae'r Drwydded os caiff ei chaniatáu er mwyn galluogi'r Gweithgareddau Canlynol i ddigwydd: Adloniant a Reoleiddir a gwerthu alcohol ar y safle ac oddi arno.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga. Gellir cyflwyno sylwadau 28 diwrnod yn olynol o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Cedwir copi o'r cais am ganiatáu'r drwydded uchod gan yr Adran Drwyddedu. Gellir gweld y cais o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm a dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm ac eithrio diwrnodau Gŵyl y Banc yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga, trwy drefniant ymlaen llaw yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael i'w weld ar-lein www.monmouthshire.gov.uk.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn cysylltiad â chais. Mae'r ddirwy y mae person yn agored iddi ar gollfarn ddiannod am y drosedd yn ddiderfyn.

Dyddiad : 19eg Rhagfyr 2024

O.N. **Rhaid** i Ddyddiad y Hysbysiad hwn fod y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno'n gywir i'r Awdurdod Trwyddedu.